John Griffiths AC /AM
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Culture and Sport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-263
Ein cyf/Our ref JG/01510/13

William Powell AM
Chair Petitions committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

25 November 2013

Dear William,

Thank you for your letter of 23 October to Cadw's Director about the petition to protect the pitch at Stradey Park. I am responding as the Minister responsible for the historic environment and I would be grateful if in future, correspondence could be sent directly to me.

There seems to be some misunderstanding about the content of Cadw's report, of February 2013, scoping the options for protecting our sporting heritage. It has always been possible to include sporting venues within the *Register of Parks and Gardens of Historic Interest in Wales* but it has not been the principal reason for inclusion of a site. In this instance my officials in Cadw assessed Stradey Park as a sporting venue in its own right.

I appreciate that the decision was disappointing but Cadw concluded that the sporting venue at Stradey Park included more than just the pitch itself, and too many of its associated structures had been lost to justify its inclusion within the Register. Cadw recognised the significance of the pitch as the centrepiece but it also considered that the stands and the other associated structures were significant components of the sporting venue.

The associative value of the site comes not simply from the important events, games and famous players that played there but also from the fact that they were played in public. The associated key structures need not have been listed buildings to have enabled the site to be registered as a historic park but so many of them have been removed that their absence is critically damaging to the historic associative and cultural value of the site as a whole.

It is Carmarthenshire County Council that is responsible for engaging directly with a developer in the planning process and if the Council had considered that Cadw's input would have been helpful, my officials would have been more than happy to contribute. Cadw itself is part of the Welsh Government and has no legal identity separate from the Welsh Ministers. It must, therefore, operate in a manner that is consistent with administrative law and within its remit. In particular, it must not predetermine, or give the impression of having predetermined, any application for planning permission which is the responsibility of the local planning authority.

I hope that my reply is of help.

Yours,

**John Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Culture and Sport

**John Griffiths AC /AM**
**Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**
**Minister for Culture and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-263
Ein cyf/Our ref JG/01510/13

William Powell AC
AC Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Tachwedd 2013

committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

Dear William

Diolch i chi am eich llythyr 23 Hydref at Gyfarwyddwr Cadw ynghylch y ddeiseb o blaid diogelu cae chwarae Parc y Strade. Fi sy'n ymateb gan mai fi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am yr amgylchedd hanesyddol a byddwn yn ddiolchgar pe gallai gohebiaeth gael ei hanfon yn uniongyrchol ataf fi yn y dyfodol.

Mae'n ymddangos bod yna gamddeall ynglŷn â chynnwys adroddiad Cadw ym mis Chwefror 2013, yn cwmpasu'r opsiynau ynghylch diogelu'n treftadaeth chwaraeon. Mae bob amser wedi bod yn bosibl cynnwys lleoliadau chwaraeon yn y *Gofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru* ond nid yw hyn wedi bod yn brif reswm dros gynnwys safle. Yn yr achos hwn, bu fy swyddogion i yn Cadw yn asesu Parc y Strade fel lleoliad chwaraeon yn ei hawl ei hun.

Rwy'n sylweddoli bod y penderfyniad wedi peri siom ond daeth Cadw i'r casgliad bod lleoliad chwaraeon Parc y Strade yn cynnwys mwy na'r cae ei hunan, a bod gormod o'r strwythurau perthynol wedi'u colli i gyfiawnhau ei gynnwys yn y Gofrestr. Cydnabu Cadw arwyddocâd y cae fel y canolbwynt, ond roedden nhw o'r farn hefyd fod yr eisteddleoedd a'r strwythurau perthynol eraill yn gydrannau arwyddocaol o'r lleoliad chwaraeon.

Mae gwerth cysylltiadol y safle yn codi nid dim ond o'r digwyddiadau, y gemau a'r chwaraewyr enwog a fu'n chwarae yno ond hefyd o'r ffaith eu bod wedi chwarae yn gyhoeddus. Doedd dim angen i'r strwythurau perthynol allweddol fod yn adeiladau rhestredig er mwyn caniatáu i'r safle gael ei gofrestru fel parc hanesyddol ond mae cynifer ohonyn nhw wedi'u colli nes bod eu habsenoldeb yn peri niwed i hanfod gwerth cysylltiadau hanesyddol a diwylliannol y safle yn ei gyfanrwydd.

Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n gyfrifol am ymwneud yn uniongyrchol â datblygwr yn y broses gynllunio a phe bai'r Cyngor wedi barnu y byddai cyfraniad gan Cadw wedi bod o gymorth, fe fyddai fy swyddogion i wedi bod yn fwy na bodlon cyfrannu. Mae Cadw ei hun yn rhan o Lywodraeth Cymru, heb hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i Weinidogion Cymru. Gan hynny, mae'n rhaid i Cadw weithredu mewn modd sy'n gyson â'r gyfraith weinyddol ac o fewn ei gylch gorchwyl. Yn benodol, rhaid i Cadw beidio â dyfarnu ymlaen llaw, na rhoi'r argraff ei fod wedi dyfarnu ymlaen llaw, ar unrhyw gais am ganiatâd cynllunio sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod cynllunio lleol.

Gobeithio bod yr ateb hwn o gymorth.

Yn gywir,

**John Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Culture and Sport